cwblhau eu hyfforddiant. Mae fy adroddiad hefyd yn tynnu sylw at rai tueddiadau cadarnhaol sy'n dangos bod y GIG yn dod yn gyflogwr mwy hyblyg a chyfartal.

## Trefniadau cynllunio'r gweithlu

35 Archwiliodd fy adolygiad a oes gan yr Ymddiriedolaeth drefniadau effeithiol i gefnogi cynllunio'r gweithlu. Roedd yn canolbwyntio ar gynllunio strategol a gweithredol y gweithlu, sut mae'n defnyddio gwybodaeth am y gweithlu a sut mae'n gweithio gyda'i rhanddeiliaid i ddatblygu datrysiadau. Roedd y gwaith hefyd yn ystyried capasiti a gallu'r sefydliad i nodi a mynd i'r afael â heriau allweddol y gweithlu yn y tymor byr a'r tymor hir, a sut mae'n monitro a yw ei ddull gweithredu'n gwneud gwahaniaeth.

36 Canfu fy ngwaith fod yr Ymddiriedolaeth yn cryfhau ei gynllunio gweithlu strategol wedi'i gefnogi gan wybodaeth am y gweithlu sy'n gwella. Fodd bynnag, mae ganddi ddiffyg trosolwg ar effaith ei mentrau gweithlu ac mae angen iddi sicrhau bod ganddi'r capasiti a'r gallu i gyflawni blaenoriaethau gweithlu hirdymor.

37 Mae'r materion gweithlu allweddol yn yr Ymddiriedolaeth yn ymwneud â llenwi swyddi gwag mewn proffesiynau mewn meysydd â heriau cenedlaethol hirhoedlog. Mae lefelau swyddi gwag yn uwch na'r cyfartaledd ledled Cymru, â rhai bylchau nodedig gan gynnwys radiolegwyr ymgynghorol, meddygon oncoleg acíwt ymgynghorol a ffisigwyr meddygol a rhai swyddi nyrsio. Mae'r Ymddiriedolaeth yn dal i ymdrin ag effaith y pandemig a chafwyd lefelau salwch uchel mewn rhai meysydd gwasanaeth. Cynyddodd gwariant ar staff asiantaeth yn sylweddol yn 2020-21 i £2.7 miliwn ond gostyngodd i £1.3 miliwn yn 2022-23.

38 Mae gan yr Ymddiriedolaeth weledigaeth strategol eglur ar gyfer ei gweithlu; fodd bynnag, i'w cyflawni'n effeithiol, mae angen iddi ddatblygu ei dulliau cynllunio'r gweithlu strategol a datblygu cynllun gweithredu sylfaenol. Mae gan yr Ymddiriedolaeth ddealltwriaeth resymol o ofynion presennol ar y gwasanaeth, yn seiliedig ar fodelau gwasanaeth presennol. Mae'n gweithio'n dda gyda rhanddeiliaid mewnol ac allanol i ddod o hyd i atebion cyffredin i heriau gweithlu. Fodd bynnag, ceir lle i'r Ymddiriedolaeth gryfhau ei dadansoddiad o alw rhagweledig yn y dyfodol i lunio gofynion gweithlu'r dyfodol a hysbysu gwaith modelu'r gweithlu. Ar adeg llunio'r adroddiad hwn, roedd yr Ymddiriedolaeth yn gweithio i gwblhau ei Fframwaith Cyflenwi a Llunio.

39 Mae gan yr Ymddiriedolaeth fwriad eglur i wella capasiti a gallu cynllunio'r gweithlu. Fodd bynnag, mae capasiti corfforaethol cyfyngedig a phwysau gweithredu yn golygu nad oes gan arweinwyr gwasanaeth amser digonol i ddatblygu atebion cynllunio'r gweithlu i helpu i fynd i'r afael â heriau gweithredu. Mae'r Ymddiriedolaeth yn deall risgiau gweithlu lefel uchel sy'n gysylltiedig â darparu ei Strategaeth Pobl, ond prin yw'r effaith y mae camau i liniaru'r risgiau hyn wedi ei chael hyd yma. Dylai datblygu'r Fframwaith Cyflenwi a Llunio helpu i nodi bylchau yn y gweithlu a hysbysu gwaith asesu risg corfforaethol yn y dyfodol. Mae'r Ymddiriedolaeth yn cymryd camau i'w helpu i ymateb i heriau gweithlu presennol trwy amrywiaeth o weithgareddau recriwtio a chadw.

| Risg archwilio | Ymateb archwilio arfaethedig | Gwaith a wnaed a'r canlyniad |
|---|---|---|
| gwerthoedd cario asedau ymlaen wedi newid yn ystod 2022-23 a bod prisiadau 1 Ebrill 2022 yn cael eu cam-ddatgan yn berthnasol ar ddyddiad y fantolen. | | |
| **Stocrestr**<br>Er ei fod yn lleihau, mae balans y stocrestr yng nghyfrifon blynyddol yr Ymddiriedolaeth yn dal i fod yn berthnasol. Hefyd, bu gostyngiadau gwerth perthnasol i rai gwerthoedd stoc yn ystod y flwyddyn ariannol. Ceir risg nad yw'r gostyngiadau gwerth hyn wedi'u seilio ar dybiaethau cywir, wedi'u cyfrifo'n gywir nac yn gyflawn. | Byddwn yn ymgymryd â gweithdrefnau archwilio i gael sicrwydd ynghylch cywirdeb a chyflawnrwydd y gostyngiadau gwerth a wnaed yn ystod y flwyddyn ariannol i helpu i hysbysu pa un a yw balans y stocrestr yn y datganiadau ariannol yn berthnasol gywir. | Cwblhawyd yr holl waith archwilio fel y bwriadwyd ac ni chododd unrhyw broblemau. |
| **Cronfa Risg Cymru**<br>Mae'r Ymddiriedolaeth yn darparu Gwasanaethau Cronfa Risg Cymru ar ran cyrff GIG | Byddwn yn cynnal profion archwilio ac yn ceisio sicrwydd o'r gwaith a wnaed gan archwilwyr GIG Cymru eraill er mwyn cael sicrwydd bod y rhwymedigaethau yn berthnasol gywir. | Gwnaed addasiad archwilio o £4.587 miliwn i leihau Darpariaeth Cronfa Risg Cymru a dyledwr cyfatebol yn ddyledus gan Lywodraeth Cymru, |

| Risg archwilio | Ymateb archwilio arfaethedig | Gwaith a wnaed a'r canlyniad |
|---|---|---|
| Cymru o ran costau sy'n gysylltiedig â setlo hawliadau esgeuluster clinigol, gan gynnwys achosion setlo strwythuredig. O ganlyniad i werth nodweddiadol uchel yr hawliadau hyn, mae'r gwerth cyfanredol yng nghyfrifon yr Ymddiriedolaeth yn llawer mwy na'n lefel berthnasedd. O ganlyniad, ceir risg gynhenid y gallai unrhyw wallau yn cyflwyno a datgelu'r rhwymedigaethau hyn yn y cyfrifon blynyddol fod yn berthnasol. | | oherwydd dyblygu achos a ddaeth yn achos Setliad Strwythuredig yn ystod y flwyddyn. |

